# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Gwener, 8 Ionawr 2021

Amser: 2.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cadarnhawyd y cofnodion o 16 Rhagfyr 2020 fel rhai cywir.

4 **Monitor Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd yn amlinellu cynigion am gyllideb ddrafft 2021/22. Bu'n destun cryn waith dros y misoedd diwethaf, a llawer ohono'n cael ei wneud yng nghyd-destun heriol dim neu fawr ddim gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru na'r DU am gyllid craidd a thymor-byr cysylltiedig â Covid-19 am 2021/22, ac ansicrwydd Brexit. Derbyniodd y Cyngor fanylion y drafft o'r Grant Cynnal Incwm (GCI) yn unig ar 22 Rhagfyr 2020, ac o gofio'r ansicrwydd a grybwyllwyd uchod, wedi hynny yn unig y llwyddwyd i greu'r cynigion terfynol. Yr oedd angen mwy o waith eto, o gofio'r setliad grant oedd yn uwch na'r disgwyl, er i lawer o waith gael ei wneud wedi'r setliad, fel bod y gyllideb ddrafft mor gynhwysfawr ag oedd modd.

O ganlyniad i hyn, dechreuodd yr ymgynghoriad ar y gyllideb dipyn yn hwyrach nag arfer, ond addaswyd gweddill yr amserlen i osod y gyllideb er mwyn cael cymaint o amser ag oedd modd i ymgynghori. Golygodd hyn y byddai gan drigolion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid fel y Comisiwn tegwch annibynnol bedair wythnos lawn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yr oedd yr ymgynghoriad wedi dechrau, a gofynnodd yr Arweinydd i drigolion, partneriaid a phawb ymwneud yn llawn. Yr oedd wedi ymrwymo i ymwneud cynhwysfawr â hyn, gan gynnwys gyda phrosesau mewnol fel pwyllgorau craffu.

Fel erioed, rhestrwyd pob cynnig unigol, yn fuddsoddiadau ac yn arbedion, yn atodiadau'r adroddiad. Yr oedd arbedion yn y gyllideb fyddai'n cael effaith ar wasanaethau wedi eu cynnwys yn fanwl, ac yr oedd dolenni yn yr adroddiad i fanylion arbedion eraill y gyllideb. Yr oeddem yn ymgynghori'n benodol ar y rhai gydag effaith ar wasanaethau ac yn derbyn sylwadau a'u hystyried cyn dod i unrhyw benderfyniad terfynol ym mis Chwefror. Cytunir heddiw ar gynigion eraill na fyddant yn cael effaith ar wasanaethau, i'r Penaethiaid Gwasanaeth eu gweithredu.

I droi at y manylion:

- Cynyddodd costau chwyddiant y swm i ychydig dros £5m y flwyddyn nesaf, ac yr oedd tua'r lefel hon bob blwyddyn, ar sail rhagdybiaethau cynllunio. Yr oedd cryn ansicrwydd am chwyddiant tâl y flwyddyn nesaf, gyda Changhellor y DU yn cyhoeddi rhewi cyflogau am flwyddyn ac eithrio i'r rhai ar y cyflogau isaf, a llywodraeth leol yn pennu eu trefniadau tâl eu hunain. Hefyd, roedd cyflogau athrawon yn cael eu pennu gan Weinidog perthnasol Llywodraeth Cymru. Gan fod hwn yn faes risg uchel i'r gyllideb, gwnaeth y Cyngor ddarpariaeth ar gyfer codiadau chwyddiant, fel y nodir yn yr adroddiad.

- I 2021/22 yn benodol, yr oedd y cyngor am fuddsoddi bron i £8m yn y gyllideb ddrafft yn ychwanegol i lwfans am chwyddiant tâl a phrisiau. Yr oedd mwy o fanylion am fuddsoddiadau arfaethedig yn atodiad 1, ac ymysg rhai o'r eitemau allweddol yr oedd:

  - £1.8m wedi ei fuddsoddi yng nghyllidebau ysgolion
  - £2.6m o fuddsoddiad yn y rhaglen gyfalaf, i hwyluso dyheadau'r Cyngor a'r Fargen Ddinesig ar gyfer y ddinas a'r rhanbarth
  - £1.5m ar gyfer y galw cynyddol am ofal cymdeithasol i wasanaethau plant ac oedolion
  - £305k o fuddsoddiad i gyflawni'r addewidion yn y Cynllun Corfforaethol, megis cyflwyno dyheadau digidol, a chanolfan newydd i ailgylchu gwastraff cartref.

- O ran arbedion, y cwantwm am 2021/22 oedd £3.3m , ac ychydig dros £600k o hyn wedi cytuno arno ym mhenderfyniadau blaenorol y gyllideb, gyda £2.7m yn gynigion newydd. O hyn, nododd y Cyngor ychydig llai na £1 miliwn ar gyfer ymgynghori, ond buom yn gweithio'n galed i nodi cymaint o arbedion ag oedd modd na fyddai'n cael llawer o effaith, ac yr oedd y rhain yn £1.7 miliwn.

Yr oedd y Cyngor yn ymgynghori ac yn cytuno ar holl arbedion y gyllideb sydd yn yr adroddiad am eleni, ac yn cynnwys swm bychan o bron i £260k a nodwyd ar gyfer y dyfodol.

Cynigiwyd hefyd godi Treth y Cyngor o 5%. Yr oedd yr Arweinydd yn sylweddoli fod y codiad hwn yn uwch na chwyddiant, ond fel y dywedodd yr adroddiad, yr oedd gan Gasnewydd Dreth Cyngor isel, a hyd yn oed gyda setliad ariannol da gan LlC, rhaid i ni gadw hyn mewn cof er mwyn cefnogi ein trigolion mwyaf bregus, buddsoddi yn ein seilwaith,a chefnogi ein hucheglais i adfywio'r ddinas. Hyd yn oed gyda llawer o arian ychwanegol gan LlC, mae ein hangen i fuddsoddi mewn gwasanaethau a'r ddinas yn golygu fod angen codi Treth y Cyngor a dod o hyd i arbedion. Nid mater o godi Treth y Cyngor yn unig oedd y gyllideb; yr oedd arbedion hefyd, a buddsoddiad yn y ddinas a gwasanaethau.

<u>Sylwadau'r Cabinet:</u>
Cyfeiriodd y Cynghorydd Rahman at yr arbediad o £35M a nodi, ers 2012, yr arbedwyd gwerth £74.8M a gwneud toriadau, ond fod gwasanaethau yn dal i redeg yn dda, diolch i'r staff a'r Cyngor gofalgar sy'n cynnal y trigolion.

Nododd y Cynghorydd Truman fod y rhain yn amseroedd heriol, ond y byddai'r Cyngor a'r trigolion yn goroesi. Dangosodd y gyllideb fod y Cyngor yn buddsoddi mewn gwasanaethau a bod y staff yn gweithio'n galed, felly roedd yn bwysig buddsoddi mewn gwasanaethau lle

gallem. Yr oedd hon yn gyllideb oedd yn gwrando, a byddwn yn croesawu sylwadau gan aelodau'r cyhoedd. Soniwyd hefyd fod rhai cynghorau wedi mynd yn fethdalwyr, ond nad oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn y sefyllfa hon ac yn dal i gynnal gwasanaethau, oedd yn gadarnhaol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at dudalen 42 o bapurau'r agenda, a dweud fod angen i'r swyddogion gorfodi gwastraff barhau â'u hymdrechion, a diolchodd i'r trigolion am eu hymdrechion i ailgylchu. Mae'r gwasanaeth hanfodol hwn yn dal ar gael, sy'n dda i Gasnewydd.

Canmolodd y Cynghorydd Davies gynigion y gyllideb, ac ategu'r ffaith mai cyllideb sy'n gwrando yw hon, a'i fod yn flaenoriaeth allweddol fod trigolion yn ymateb. Un o'r nifer o fuddsoddiadau i'w canmol oedd y gronfa eiddo gwag.

Dywedodd y Cynghorydd Harvey ein bod yn y sefyllfa waethaf ers yr Ail Ryfel Byd, a bod staff ar lawr gwlad yn dal i gasglu sbwriel er bod risg iddynt hwythau. Y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi gwasanaeth o'r radd flaenaf gan staff o'r radd flaenaf.

Nododd y Cynghorydd Giles fod y Cyngor yn wastad wedi ymrwymo i sicrhau fod gan y trigolion bopeth sydd arnynt ei angen. Yr oedd hwn yn gyfnod anodd i rieni, gofalwyr ac athrawon. Mae'r Gwasanaethau Addysg yn gwneud galwadau ar y gyllideb, gan roi darpariaeth hanfodol ac ymrwymo i godi ysgolion newydd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yr oedd y Cynghorydd Mayer am atgoffa aelodau'r cyhoedd fod gwahanol ffyrdd o wneud sylwadau am yr ymgynghoriad, drwy'r post, y gwefan, Fy Nghasnewydd a Materion Casnewydd. Y gobaith oedd y byddai'r trigolion yn ymwneud â'r Cyngor ac yn rhoi adborth.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Cockeram i ddweud gair am gynigion y gyllideb a sut y byddant yn effeithio ar ei bortffolio/maes gwasanaeth. Esboniwyd fod y cyngor yn gwneud camau cadarnhaol i wella'r gofal cymdeithasol i blant trwy fuddsoddi mewn llety fel Rose Cottage, oedd yn torri i alwr ar leoliadau allsirol. Gwnaed arbedion mawr trwy leihau lleoliadau allsirol, ac yr oedd.  Rose Cottage yn llwyddiant enfawr, a chafodd ei enwebu am Wobr Gofal Cymdeithasol: er nad enillodd, cafodd glod uchel. Rhoddodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad gwych i Gymru gyfan am Rose Cottage, gan roi enghraifft o blentyn lleol yn dychwelyd o leoliad allsirol yn yr Alban, ffynnu yn Rose Cottage, a dychwelyd yn y pen draw at ei fam. Mae arbedion o ryw £8K yr wythnos yn digwydd. Mae cartref arall yn cael ei adnewyddu, a bydd yn barod erbyn mis Chwefror; felly hefyd Fferm Windmill a thri thŷ, felly mae cyfiawnhad dros gau Tŷ Caergrawnt.

Adfyfyriodd yr Arweinydd ar sylwadau cydweithwyr, a datgan mai swydd y Cabinet yw ystyried y cynigion fyddai'n mynd i'r cyhoedd, a bod hyn yn benderfyniad pwysig. Diolchodd yr Arweinydd i Aelodau'r Cabinet am eu sylwadau gwerthfawr a phrofiad eu portffolios, yn enwedig y Cynghorwyr Cockeram a Truman, ac am ymrwymiad y swyddogion.  Mae'r Cyngor yn dal i foderneiddio Casnewydd heb i hynny gael effaith negyddol ar yr economi.

Mae hyn hefyd yn fater o fuddsoddi yn y meysydd gwasanaeth yn ôl cais Llywodraeth Cymru, a phenderfyniadau yw'r rhain ar sail tystiolaeth am gynnal gwasanaethau trwy'r pandemig, trwy gymharu â chynghorau eraill. Nid yw'r rhain yn benderfyniadau hawdd, ac y mae gan y Cyngor ddyletswydd moesol a moesegol. Y mae'r holl wybodaeth yno, ac y mae'r Cabinet yn croesawu sylwadau'r cyhoedd.

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i beidio ag ymgynghori ar adnewyddu Maes Parcio View, a chefnogwyd hyn gan y Cynghorwyr Harvey a Giles. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorwyr Mayer a Whitehead am eu cyfraniad.

**Cytunwyd:**

1. Ystyriodd y Cabinet yn ofalus yr holl gynigion a roddwyd gerbron gan y swyddogion, a chytuno i'r cynigion drafft isod fynd i ymgynghoriad gan y cyhoedd:

   i) Cynigion am arbedion y gyllideb yn atodiad 2 (tabl crynhoi) ac atodiad 5 (cynigion manwl), gan gynnwys y pwynt penderfynu (naill ai'r Cabinet llawn neu'r Pennaeth Gwasanaeth) am bob un. Yr eithriad i hyn oedd peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig i gyflwyno taliadau parcio i dri maes gwledig a chefn gwlad - Glebelands, Pwynt Gwylio Christchurch (Gwarchodfa Natur Leol) Morgan's Pond (oddi ar Lôn Betws) (cynnig rhif STR2122/07).

   ii) Cymeradwyo gweithredu'r penderfyniadau dirprwyedig yn atodiad 3 gan y Penaethiaid Gwasanaeth yn syth, yn dilyn prosesau arferol y Cyngor i wneud penderfyniadau.

   iii) Cynnydd yn nhreth y cyngor o 5%, sef cynnydd wythnosol o £0.77 - £1.02 i eiddo ym Mandiau A i C, y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd, fel y gwelir ym mharagraffau 3.21 – 3.24.

   iv) Ffioedd a thaliadau arfaethedig yn atodiad 7; nid oedd unrhyw gynnydd mewn ffioedd meysydd parcio yn yr Atodiad hwn.

   v) Buddsoddiadau'r gyllideb a ddangosir yn atodiad 1.

   vi) Darpariaeth fuddsoddi'r gyllideb mewn ysgolion o hyd at £4,937k, seiliedig ar ragdyb o godiad cyflog athrawon/ yr NJC ac yn darparu ar gyfer gofyniad cyllido wedi ei gyllido'n llawn, ynghyd â chost ysgolion estynedig/newydd fel y nodir ym mharagraff 3.14 - 3.20. Yn benodol, cytunodd y Cabinet i gadarnhau hyn a'i roi ar ei ffurf derfynol pan geir sicrwydd am gyflogau athrawon o fis Medi 2021 gyda'r bwriad o gadw'r amcan a ddisgrifir uchod, o fewn yr arian sydd ar gael.

2. Nododd y Cabinet

   i) Y sefyllfa am ddatblygu cyllideb gytbwys am 2021/22, gan gydnabod fod y sefyllfa yn destun adolygu cyson a chyfoesiadau yn wyneb cyhoeddiad hwyr LIC am gyllid terfynol 2021/22.

   ii) Y rhagfynegiadau ariannol tymor canol, rhagdybiaethau yno, a'r rhagfynegiadau am fuddsoddiadau sydd ei angen i gadw at addewidion y Cynllun Corfforaethol.

   iii) Y cwblheir Asesiadau Tegwch ac Effaith Cydraddoldeb cychwynnol ar gyfer pob un sydd angen un.

   iv) Yr angen i flaenoriaethu datblygu 'rhaglen newid strategol' er mwyn datblygu sefyllfa ariannol gynaliadwy yn y tymor hir i wasanaethau.

## 5 Monitor Cyllideb Refeniw Tachwedd

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd yn ymdrin â'r gyllideb refeniw fel ym mis Tachwedd 2020. Yr oedd yn cadarnhau fod y rhagolygon diweddaraf yn dangos tanwariant o £2.7 miliwn. Y mae hyn yn gynnydd ers sefyllfa mis Medi oedd yn dangos rhagolwg am danwariant o ryw £1.7 miliwn, ac sy'n adlewyrchu sefyllfa well y rhagolygon mewn ysgolion a hefyd y galw is na'r disgwyl mewn gofal cymdeithasol i oedolion o ganlyniad i bandemig Covid-19. Yr oedd tanwariant y llinell waelod yn cynnwys £1.4 miliwn o'r gyllideb refeniw wrth gefn nad oedd ei angen ar hyn o bryd, ac yr oed dyn cyfrif am ychydig dan hanner y tanwariant. Yr oedd tanwariannau eraill yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â rhai arbedion unwaith-am-byth yn y gyllideb eleni yn bennaf oherwydd cryn oedi wrth recriwtio a hefyd llawer llai o wariant amrywiol, er enghraifft, costau teithio/cynhaliaeth a chostau argraffu. Yr oedd y rhagolygon yn rhagdybio y byddai LIC yn dal i ad-dalu a gwneud iawn am y meysydd gwario cyfredol a'r incwm a gollwyd oherwydd Covid-19.

O ran materion allweddol, arbedion ar y CATC heb eu cyflawni yw'r prif fater unigol ar y gyllideb ar hyn o bryd. Cafodd Covid-19 gryn effaith ar berfformiad cyflwyno arbedion, ac er bod y sefyllfa wedi gwella ers mis Medi, yr oedd dros £1 miliwn o arbedion eto heb eu cyflawni. Byddai angen cyflwyno unrhyw arbedion nas gwnaed ar ddiwedd y flwyddyn mor

fuan ag sydd modd y flwyddyn ddilynol, ond byddai hynny yn ychwanegol at unrhyw arbedion newydd am flwyddyn ariannol 2021/22. Yn hynny o beth, er nad oedd modd osgoi hyn, fe fyddai yn achosi problemau a heriau. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr, Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau'r Cabinet i ganolbwyntio ar y rhain yn awr gymaint ag sy'n rhesymol bosib a pharhau â'r gwelliant. Y mae hyn yn cael ei wneud yn y cyd-destun mwyaf heriol, ac y mae'r Cyngor yn gwneud yr hyn a fedr i leihau pwysau at y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at hyn, y mae arall lle'r oedd pwysau ar y gyllideb oedd y galw cyson ar gyllidebau gofal cymdeithasol - plant yn enwedig - ac yr oedd gorwariant o £725 mil yn cael ei ragweld. Yr oedd y gorwariant yn cael ei leddfu gan arbedion yn erbyn meysydd eraill, rhai gwasanaeth a rhai heb fod yn wasanaethau, o bron i £3 miliwn, oedd yn dod i danwariant cyffredinol o £1.2 miliwn, sydd wedyn yn cael ei ychwanegu at y gyllideb gyffredinol wrth gefn nas gwariwyd ar hyn o bryd, sef £1.47 miliwn.

Er bod lefel y gorwariant oedd yn cael ei ragweld ar ysgolion yn faes pryder trwy gydol y flwyddyn, tanwariant oedd yn cael ei ragweld, fel y gwelir yn yr adroddiad. Yr oedd y rhagolygon yn cael eu hadolygu yng ngoleuni effaith y pandemig a'r ad-daliad y byddai ysgolion yn ei dderbyn o gronfa caledi Llywodraeth Cymru a'r arian unwaith-am-byth fyddai'n cael ei dderbyn. Yr oedd yn dda nodi fod rhagolygon cyllidebau refeniw'r ysgolion wedi gwella; byddai hyn yn cynyddu'r arian wrth gefn sydd gan ysgolion i yn agos i £1.7 miliwn. Yr oedd yr Arweinydd yn ymwybodol, serch hynny, fod cyllidebau ysgolion yn dal i fod dan gryn straen, a bod llawer o ysgolion yn dal i ddisgwyl gorwario yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r swyddogion yn gweithio gydag ysgolion unigol ar eu cynlluniau adfer ariannol, a hyn yn dangos canlyniadau da.

Dangosodd y rhagolygon fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i wynebu'r heriau sydd o'n blaen. Mae angen mwy o waith i adolygu pa wariant 'dal i fyny' anorfod fyddai ei angen y flwyddyn nesaf, a byddai hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth asesu sut i ddefnyddio'r tanwariant. Ni ddylai'r elfen honno fod yn sylweddol ynddi'i hun. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r Cabinet ystyried sut orau i ddefnyddio'r tanwariant. Yr oedd yr Arweinydd yn ymwybodol o risgiau cyson Covid a'r ansicrwydd ar hyn o bryd am faint yn union o gefnogaeth y byddai cynghorau yn dderbyn y flwyddyn nesaf am gostau Covid ac incwm a gollwyd yn chwarter neu hanner cyntaf y flwyddyn. Byddai Brexit hefyd yn bwnc i'w ystyried gan nad oedd llawer o'r manylion yn hysbys eto, a gallai hyn gael effaith. Bydd y rhain yn bynciau allweddol i'w hystyried yn ogystal â blaenoriaethau eraill y Cabinet a'r angen fel arfer am arian unwaith-am-byth i gefnogi prosiectau. Byddai'r cyngor yn ystyried y rhain yn fanwl yn y man, ond yr oedd y sefyllfa yn caniatáu hyblygrwydd i asesu'r materion uchod.

<u>Sylwadau'r Cabinet:</u>

Diolchodd y Cynghorydd Giles i holl staff, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, gan sicrhau y bydd yn eu cefnogi ym mhob ffordd i barhau i roi gwasanaeth addysg i'r disgyblion.

Yr oedd y Cynghorydd Truman yn pryderu am amwysedd ynghylch rheoliadau Brexit a'r hyfforddiant i swyddogion, gan ddweud fod angen eglurhad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at y Gwasanaethau Plant a phalant a gyfeiriwyd, oedd wedi cynyddu yn ystod y pandemig; byddai cyfnod clo arall yn fater o bwys o ran diogelu plant.

**Cytunwyd:**
Gofynnwyd i'r Cabinet wneud y canlynol:

- Nodi sefyllfa gyffredinol rhagolygon y gyllideb a'r meysydd lle bu gorwario sylweddol yn bennaf oherwydd arbedion CATC y dylai Penaethiaid Gwasanaeth ddal i ganolbwyntio ar weithredu'r arbedion y cytunwyd arnynt;
- Nodi'r rhagdybiaethau gyda'r sefyllfa a ragwelwyd, ac yn enwedig yr ansicrwydd am (i) effaith Covid ar feysydd gwasanaeth a (ii) y gefnogaeth ariannol fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) am weddill y flwyddyn ariannol;

- Nodi'r symudiadau a ragwelir yn yr arian wrth gefn;
- Nodi'r heriau ariannol sylweddol y gallai ysgolion wynebu yn y dyfodol pe na baent yn rheoli eu cyllidebau, a'r effaith ddifrifol fyddai hyn yn gael ar gyllidebau refeniw eraill y Cyngor a'r arian wrth gefn, a bod gwaith ar y gweill i adolygu'r rhagolygon;
- Nodi fod gwaith yn mynd rhagddo i nodi effaith cyllidebau heb eu gwario a meysydd sy'n derbyn grantiau er mwyn pennu beth i'w gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

6 **Monitor Cyllideb Gyfalaf**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Rhaglen Gyfalaf helaeth o fuddsoddi ar draws yr awdurdod mewn meysydd fel ysgolion, asedau treftadaeth, cynlluniau effeithlonrwydd ynni, rhaglenni buddsoddi i arbed, ac adfywio canol y ddinas.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y buddsoddiad a gymeradwywyd eisoes gan y cabinet, gyda chais i ychwanegu £3.915 miliwn at y rhaglen er mwyn cyflwyno blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a'r rhan fwyaf yng nghyswllt prysuro gyda Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd( "y Fargen Ddinesig"). Y mae hefyd yn rhoi'r rhagolygon diweddaraf am wariant ar gynlluniau eleni, a llithriad gwariant y gyllideb i'r blynyddoedd i ddod.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo £3.915 miliwn yn ychwanegol i'r rhaglen gyffredinol, yn bennaf yng nghyswllt prysuro gyda Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd. Fel aelod o'r Fargen Ddinesig, yr oedd gofyn i ni ddarparu arian cyfalaf yn ogystal â thalu am unrhyw lif arian petai'n cael ei wario cyn i arian y Trysorlys gyrraedd. Cafodd y cynllun busnes diweddaraf ei adolygu a'i gymeradwyo gan Gabinet y Fargen Ddinesig, a chymeradwywyd y prysuro. Er y byddai'r gwariant yn gyffredinol yn aros o fewn y terfynau cyllido cyffredinol y cytunwyd arnynt, bydd angen i bob cyngor yn y ddinas-ranbarth dalu am hyn yn gynt na'r disgwyl. Y cynllun gwreiddiol oedd i wariant ar y fargen ddinesig ddod i'w rhan bob blwyddyn tan 2026/27 ond byddai'r cynllun newydd yn dwyn y gwariant hwn ymlaen i ddiweddu yn 2022/23. Byddai'r effaith refeniw felly yn ymestyn dros lawer blwyddyn, ac er y byddai hyn yn cynyddu'n raddol hyd at 2026/27, byddai'n cyflymu hyd at 2023/24, a byddai'n rhaid caniatáu am hyn yn ein cynllunio cyllidebol am y ddwy flwyddyn ariannol nesaf yn ein CATC. Yn amlwg, mae hyn yn gyflymu uchelgeisiol ar y gwariant, a hynny dan amgylchiadau anodd, felly bydd angen cadw golwg fanwl. Mae'r tabl yn dangos y rhaglen gyfalaf yn adlewyrchu'r ychwanegiad hwn, ac yr oedd y gyllideb eleni ychydig dan £32 miliwn gyda rhaglen gyffredinol o bron i £211 miliwn.

O ran monitro gwariant, cadarnhaodd yr adroddiad ei fod yn gymharol isel, sef ychydig dros £11 miliwn ar gyllid sydd fymryn dan £32 miliwn. Nid oedd y patrwm hwn yn anghyffredin, ond yn amlwg mae'n gyd-destun heriol i fwrw ymlaen â chynlluniau, sy'n arwain yn anorfod at lithriad eleni. Fel rhan o adolygu'r rhagolygon, nododd rheolwyr cyllidebau/prosiectau bron i £4.6m o lithriad yn y gyllideb, a gofynnwyd am gario hwn ymlaen i gyllidebau blynyddoedd i ddod. Yr oedd y tabl sy'n dangos y rhaglen gyfalaf yn adlewyrchu hyn, ac yr oedd y gyllideb wedyn eleni ychydig dan £32 miliwn.

<u>Sylwadau'r Cabinet:</u>

Tynnodd y Cynghorydd Giles sylw at y ffaith fod sôn am ysgolion yn cyd-fynd â'r sylwadau am gynigion buddsoddi, yn enwedig Ysgolion yr 21fed Ganrif a Band B yn derbyn cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, ac er nad oedd hyn yn ddigon, yr oedd y Cyngor yn gwneud ei orau o ystyried yr holl welliannau a'r datblygiadau sy'n digwydd mewn Addysg. Y mae hyn yn adlewyrchiad da o'n hymrwymiad i drigolion Casnewydd.

**Cytunwyd:**
Fod y Cabinet yn

1. Cymeradwyo'r ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A)

2. Cymeradwyo llithriad i £4,568k i'r blynyddoedd i ddod
3. Nodi'r diweddariad am weddill yr adnodau cyfalaf ('arian rhydd') at a chan gynnwys 2022/23
4. Nodi'r sefyllfa o ran rhagolygon gwariant cyfalaf fel ar Dachwedd 2020
5. Nodi a chymeradwyo dyraniadau derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn

7 **Dadansoddiad Perfformiad Canol Blwyddyn 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Dadansoddiad Perfformiad Canol Blwyddyn am chwe mis cyntaf eleni (Ebrill i Fedi).

Rhoddodd meysydd gwasanaeth y Cyngor ddiweddariad am gynnydd yn erbyn cyflwyno eu hamcanion a'u mesuriadau perfformiad, a gyfrannodd tuag at Nodau Adfer Strategol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adborth ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Pobl a'r Pwyllgor Craffu Lle a Chorfforaethol yn dilyn cyflwyno'r adolygiadau canol-blwyddyn ym mis Tachwedd 2020.

Yn ôl yn, gwnaethom lansio ein Cynllun Corfforaethol 5-mlynedd oedd yn gosod allan ein gweledigaeth a'n nod i wella bywydau pobl yng Nghasnewydd a chyflwyno ein gwasanaethau yn well.

Datblygodd wyth maes gwasanaeth y Cyngor gynlluniau gwasanaeth, oedd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at gyrraedd amcanion y Cyngor a chyflwyno gwasanaethau yn well.

Fel gydag unrhyw gynllun, yr oedd heriau a ffactorau allanol allai gael effaith ar gyrraedd y nod.

Bu 2020 yn annhebyg i unrhyw flwyddyn arall a wynebwyd gennym fel Cyngor ac ar draws ein cymunedau, ac yr oedd wedi tarfu ar gyflwyno gwasanaethau, wrth i ni gyfeirio ein hymdrechion at gefnogi cymunedau ac aelwydydd bregus ac ymylol. Er hynny, dangosodd hyn gryfderau'r Cyngor gan y bu'n rhaid ymateb yn sydyn i'r heriau hyn a gweithredu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno ein gwasanaethau.

I gefnogi hyn, cymeradwyodd y Cabinet bedwar Nod Adfer Strategol, Cyngor Dinas Casnewydd oedd yn cefnogi nod yr Amcanion Lles ond hefyd yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau a ddaeth i'n rhan.

Rhoddodd yr Arweinydd fanylion am gynnydd yn erbyn y pedwar Nod Adfer Strategol, gyda'r rhan fwyaf o gamau yn adrodd statws 'Gwyrdd' yn gyffredinol. Yr oedd y statws Oren yn arwydd o broblemau posib,  allai effeithio ar gyflwyno'r camau hyn yn llwyddiannus, a dim ond 1% o'r camau a adroddodd am statws Coch ac a oedd mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau erbyn y dyddiad targed. Trafodwyd y mesuriadau perfformiad yn fanwl gan yr Arweinydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Yr oedd yr adroddiad hefyd wedi amlygu rhai o lwyddiannau a datblygiadau arwyddocaol gyda chyflwyno'r Cynllun Corfforaethol a'r Nodau Adfer Strategol.

Ystyriodd y Cabinet hefyd adborth a sylwadau'r Pwyllgorau Craffu, a chroesawu'r craffu a'r adborth adeiladol a roddwyd gan Bwyllgorau Craffu Perfformiad y Cyngor ym mis Tachwedd am gyflwyno yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth a chyd-destun ehangach argyfwng Covid. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys eu hadborth a phwyntiau allweddol a godwyd ym mhob un o'r cyfarfodydd, ac yr oedd modd mynd at gofnodion / fideos llawn y cyfarfodydd trwy wefan y Cyngor.

Yn gyffredinol, yr oedd y Pwyllgorau Craffu yn deall yr heriau a wynebodd y Cyngor hwn a'i bartneriaid trwy gydol y flwyddyn, ac yr oedd y Swyddogion a'r Aelodau yn helpu Aelodau'r Pwyllgorau i ddeall a rhoi sicrwydd am gyflwyno gwasanaethau a chynlluniau.

Yr oedd yr Arweinydd a'r Cabinet yn derbyn yr adborth a gafwyd gan ein cydweithwyr ar y Pwyllgorau Craffu, ac anogwyd yr Aelodau Cabinet ac Uwch-Swyddogion y Cyngor i ystyried y rhain wrth gyflwyno gwasanaethau ac adroddiadau yn y dyfodol.

Daeth yr Arweinydd i'r casgliad fod Cyngor Casnewydd a'u gwasanaethau ar y cyfan yn gwneud yn dda yn erbyn yr amcanion, ar waethaf yr heriau a gafwyd yn ystod 2020 ac a ddaw yn y flwyddyn newydd.

Fel y gwelwyd trwy gydol y flwyddyn hon, erys anghydraddoldeb mewn cymdeithas yn her fawr, ac fel Cyngor yn gweithio ynghyd gyda phartneriaid, trigolion a busnesau, yr oedd cyfle i wneud gwahaniaeth i bawb yn y ddinas.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud fod gan y Cabinet gyfrifoldeb dros oruchwylio a chyflwyno'r cynlluniau gwasanaeth hyn, ac y dylid cydnabod a dathlu llwyddiannau lle'r oeddent yn digwydd. Yn yr un modd, rhaid i'r Cabinet hefyd gymryd y cyfrifoldeb os oedd tanberfformio yn digwydd, a sicrhau bod y cam/au cywir yn cael eu cymryd gan y meysydd gwasanaeth i wella eu perfformiad a chyflwyno'r gwasanaethau y mae ein hetholwyr eu heisiau.

Gofynnodd yr Arweinydd felly i Aelodau'r Cabinet nodi a chytuno a chynnwys yr adroddiad.

Sylwadau'r Cabinet:

Ategodd y Cynghorydd Harvey fod hon yn flwyddyn ofnadwy, ond ei fod wedi synnu gyda'r holl ganlyniadau rhyfeddol yn yr adroddiad ac ni allai ganmol digon ar y swyddogion; yr oedd yr adroddiad i'w ganmol.

Ategodd y Cynghorydd Truman sylwadau'r Cynghorydd Harvey, gan gyfeirio at ei bortffolio a gwaith anhunanol staff y cyngor a wirfoddolodd i weithio i Brofi ac Olrhain. Rhaid oedd i'r Swyddogion Amgylchedd hefyd wneud eu dyletswyddau arferol yn ogystal â rhoi gwasanaeth i Brofi ac Olrhain, a llongyfarchodd hwy ar eu hymdrech wych.

Soniodd y Cynghorydd Davies fod y Cyngor ym mis Rhagfyr wedi cael dwy wobr genedlaethol am ynni solar. Y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymdrechu i leihau eu hôl troed carbon trwy ddefnyddio cludiant dim-allyriadau ym meysydd Adfywio, Buddsoddi a Gwasanaethau Tai.

Rhestrodd y Cynghorydd Giles y galwadau enfawr y llwyddwyd i'w hateb o ran addysg a chefnogi ysgolion a hynny mewn byr amser: y straen ar ysgolion uwchradd, arholiadau'n cael eu canslo, a phroblemau staffio, gofalu am y rhai mwyaf bregus, presenoldeb plant, newidiadau mewn arferion dysgu, amddiffyn teuluoedd, darparu MS Teams ymysg llawer her arall.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at gasglu gwastraff ac ailgylchu, gan atgoffa'r sawl oedd yn bresennol fod y staff hefyd yn gallu dal Covid ond nad oedd hyn wedi atal eu gwaith caled. Ni chafodd parodrwydd yr holl staff ei anwybyddu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at y Tîm Troseddu Ieuenctid, gan ddweud na fu'r un plentyn yn y ddalfa ers 18 mis, a chyfeiriodd hefyd at y fenter gofalwyr maeth. Mae chwe gofalwr maeth ychwanegol ar gael, sy'n gam mawr at leihau dibyniaeth ar y sector preifat.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mayer at ddatblygu tudalen yr Hybiau Cymdogaeth a gafodd ei oedi oherwydd y pandemig; fodd bynnag, yr oedd yn disgwyl i hyn gael ei ddatblygu ymhellach yn y man.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r timau Cyfraith a Rheoleiddio, Pobl a Newid Busnes, ac eraill oedd yn helpu'r cynghorwyr i weithredu fel aelodau etholedig, sefydlu ein llywodraethiant, a chaniatáu i bwyllgorau gael eu cynnal. Ni allai'r Cabinet gwrdd yn y modd hwn oni bai am gefnogaeth y staff.

**Cytunwyd:**
Gofynnwyd i'r Cabinet
1. Nodi cynnwys yr adroddiad
2. Dderbyn cyfoesiad pellach am y safle diwedd-blwyddyn unwaith i'r data fod ar gael
3. Gweithredu ar frys ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth i ymdrin â meysydd perfformiad gwael.

8 **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - Ymgynghori**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad nesaf y Cabinet, ynghylch Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau i gefnogi cynghorau wrth weithredu'r gofynion Perfformiad a Llywodraethiant newydd.

Yn y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr 2020, cafodd y Cabinet drosolwg o'r Bil newydd a gofynnwyd iddynt ystyried ymateb y Cyngor i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol.

Byddai'r Bil Llywodraeth Leol yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol eleni, a bydd angen i gynghorau weithredu'r newidiadau newydd oedd yn amrywio o ddiwygio etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol, ac fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, diwygio Perfformiad a Llywodraethiant.

Byddai'r Bil Llywodraeth Leol yn cymryd lle Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a than y cynigion, bydd gofyn i gynghorau wneud yr isod:
- Cynnal hunanasesiad blynyddol o berfformiad;
- Cynnal adolygiad o bryd i'w gilydd i roi safbwynt allanol, arbenigol ar berfformiad;
- Rhoddodd y Bil hefyd bwerau i Archwiliwr Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiadau arbennig; a
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd lle mae cynghorau yn wynebu problemau sylweddol.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae Cyngor Casnewydd wedi gwneud gwelliannau cyson o ran monitro, adrodd a chraffu ar berfformiad yn erbyn cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol. Yr oedd y Cyngor mewn lle da hefyd i gynhyrchu adolygiadau blynyddol o'r Cynllun Lles, y Cynllun Strategol Cydraddoldeb, y Cynllun Iaith Gymraeg, a'r Adolygiad Llywodraethiant Blynyddol.

Mae'r Bil hefyd yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar Bwyllgorau Craffu Archwilio a Pherfformiad y Cyngor i fonitro a rhoi trosolwg o berfformiad. Byddai'n mynnu hefyd fod cynghorau yn ymwneud ac yn dwyn i mewn randdeiliaid allweddol i'w hadroddiad hunanasesu blynyddol ac adolygiadau achlysurol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol) bapur ymgynghori yn gofyn barn cynghorau ar y drafft o Ganllaw Statudol fyddai'n cael ei gyhoeddi i alluogi cynghorau i weithredu'r gofynion newydd erbyn 2022. Atodwyd ymateb drafft y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori wrth yr adroddiad.

Mae'r canllaw yn rhoi trosolwg clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau a ddisgwylir, ac yn ystyried sut y gallai'r gweithgareddau sicrwydd a'r trefniadau llywodraethiant hyn ategu'r broses yn ei chyfanrwydd, yn amodol ar y canllaw terfynol. Yr oedd y Cabinet yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau, ac yr oedd yn dda fod y canllaw yn rhoi'r hyblygrwydd i Gynghorau am sut i gwrdd â'r gofynion newydd yn unol â'n trefniadau llywodraethiant ein hunain.

Gofynnwyd i'r Cabinet felly ystyried cynnwys yr adroddiad a chytuno i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 3 Chwefror 2021.

**Cytunwyd:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a chytuno i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 3 Chwefror 2021.

9 **Diweddariad Ymateb ac Adferiad Covid-19**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad y Cabinet yn rhoi diweddariad ar ymateb y Cyngor a'u partneriaid i argyfwng Covid-19, a chefnogi'r ddinas, yn drigolion a busnesau i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol, a chynnydd gyda Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, codwyd Cymru i gyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar oherwydd bod y straen newydd o Covid-19 yn lledaenu mewn cymunedau. Ond yr oedd gobaith hefyd gyda chyflwyno'r rhaglen frechu ar raddfa eang y mis hwn.

Yn ystod y diweddariad, dywedodd yr Arweinydd fod cyfnod yr ŵyl yn anodd ac yn wahanol i ni i gyd gan i'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar ddod i rym am hanner nos 20 Rhagfyr yn dilyn cadarnhad fod y straen newydd o Covid-19 wedi achosi cynnydd yn nifer yr achosion positif ledled De Ddwyrain Cymru.

Unwaith eto, golygodd hyn y bu'n rhaid i fusnesau heb fod yn rhai hanfodol, campfeydd, canolfannau hamdden a lletygarwch gau, a bod yn rhaid i aelwydydd aros gartref a pheidio â pharhau â'u swigen estynedig i'r aelwyd (ac eithrio am bobl sengl ac ar ddydd Nadolig).

Dros y misoedd diwethaf, bu'r GIG yng Ngwent dan bwysau aruthrol wrth i fwy a mwy gael eu derbyn i'r ysbyty, a gwaetha'r modd, i lawer golli eu hanwyliaid oherwydd Covid-19.

Bydd y Cyngor a'u partneriaid yn dal i gefnogi cydweithwyr iechyd i oroesi'r argyfwng hwn, a hefyd i gefnogi neges Llywodraeth Cymru i aros gartref, a mynd allan yn unig i ymarfer, am fwyd ac i weithio (os oedd angen).

Yr oedd yn bwysig i'r holl drigolion a busnesau gydymffurfio a'r cyfyngiadau hyn a'n helpu i ddod trwy'r cyfnod anodd hwn. Mae gobaith yng nghyflwyno'r brechlynnau Pfizer ac Oxford/AstraZeneca, a bydd y Cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ofalu fod cynifer ag sydd modd o drigolion Casnewydd yn cael eu brechu dros y flwyddyn. Byddai'n broses hir, a bydd angen i drigolion fod yn amyneddgar, ond gyda'r brechlyn, bydd modd i ni yn y diwedd gwrdd eto a helpu llawer o'n busnesau i adfer.

Yr oedd yn bwysig fod y Cabinet yn cefnogi pobl i swyddi newydd, hyfforddiant ac ennill sgiliau newydd; yn cefnogi plant, pobl ifanc ac ysgolion gyda'u haddysg; yn lleihau anghydraddoldeb sy'n dal mewn cymdeithas i'n haelwydydd ymylol sydd ar incwm isel, a'r cymunedau BAME; ac yn ofal, yn cefnogi'r busnesau hynny i adfer ac i dyfu.

Trwy gydol 2020, daliodd Cyngor Casnewydd a'n partneriaid i gyflwyno gwasanaethau, gyda swyddogion yn gwneud mwy na'r disgwyl i wneud yn siŵr y gallai'r mwyaf bregus dderbyn

gofal a chefnogaeth. Mae'r adroddiad yn amlygu'r gwaith sy'n dal i fynd ymlaen, yr heriau a wynebir gan y gwasanaethau, a'r hyn sy'n cael ei wneud gan Gyngor Casnewydd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff, partneriaid a sectorau eraill am eu gwaith cyson wrth gyflwyno gwasanaethau, gan edrych ymlaen at 2021 gwell. Bydd cyfoesiad pellach ar gynnydd y Cyngor yn cael ei roi fis nesaf.

Sylwadau'r Cabinet:

Soniodd y Cynghorydd Truman, er y byddai hwn yn Nadolig gwahanol, fod llygedyn o oleuni gyda thri brechlyn yn cael eu cyflwyno; rhaid bod yn amyneddgar, ac fe oroeswn.

Adleisiodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Truman, gan atgoffa'r sawl oedd yn creu mai twyll oedd y cyfan fod miloedd wedi marw o'r firws.

Ategodd y Cynghorydd Rahman y sylwadau, a phwysleisio fod pobl ifanc hefyd yn dal y firws, ac mai dim ond un person ar aelwyd oedd angen i gael Covid a heintio'r teulu cyfan.

Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw at y modd yr oedd y cyngor yn gweithio'n dda a bod gwastraff yn dal i gael ei gasglu dros y Nadolig.  Yr oedd swyddogion yn ceisio sicrhau fod pobl ddigartref yn cael eu cefnogi gyda llety, a bod banciau bwyd ar gael. Soniodd hefyd am ymroddiad gofalwyr, sydd yn aml heb eu cydnabod.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn adlewyrchiad o waith caled pawb, a chroesawodd sylwadau gan y Cabinet. Diolchodd yr Arweinydd i bawb a gyfrannodd at fanciau bwyd. Yr oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei redeg gan bobl oedd hefyd yn agored i Covid, a rhaid i ni gadw hyn mewn cof a'i fonitro at y dyfodol.

**Cytunwyd:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r risgiau sy'n dal i wynebu'r Cyngor.

10 **Diweddariad ar ôl Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad y Cabinet oedd yn rhoi'r diweddaraf am drafodaethau masnach Brexit rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd, a pharatoadau'r Cyngor am y trefniadau wedi 31 Rhagfyr.

Ar 24 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd eu bod wedi cytuno ar berthynas fasnach at y dyfodol a olygai y gallai busnesau fasnachu'n rhydd o dariffau o 1 Ionawr 2021.

I lawer o fusnesau yng Nghymru a Chasnewydd, mae masnachu gyda'r UE yn rhoi sicrwydd mewn cyfnod fu'n anodd iawn. Bydd yn rhaid i fusnesau o hyd gydymffurfio â'r rheolau tollau newydd, ac efallai y bydd tarfu ar gyflenwad thai nwyddau a gwasanaethau yn y tymor byr. Anogodd yr Arweinydd fusnesau yng Nghasnewydd i fynd at wefan Llywodraeth Cymru (Busnes Cymru) a gofalu eu bod yn deall y rheoliadau newydd ac yn cydymffurfio â hwy.

Mae Casnewydd yn ddinas sydd a hanes hir o ffurfio cysylltiadau busnes a masnach cryf gyda'r byd, gan alluogi pobl o bob cwr o'r byd ddod i fyw a gweithio yn y ddinas. Bydd yn bwysig parhau i hyrwyddo Casnewydd a rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig dyfu wrth i ni adfer o'r pandemig.

O 1 Ionawr 2021, byddai rheolau newydd yn dod i rym. Un o'r newidiadau mwyaf oedd diwedd symud rhydd i ddinasyddion y DU a'r UE (ac eithrio am ddinasyddion Iwerddon) a chyflwyno system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau. Gan gadw hyn mewn cof, byddai

Casnewydd yn wastad yn ddinas gynhwysol, ac y mae'n bwysig i'r holl drigolion, yn ddinasyddion y DU ac eraill, wybod fod croeso i bawb fwy a gweithio a helpu i gefnogi twf cynaliadwy y ddinas a'r rhanbarth.

Yr oedd Casnewydd eisoes wedi gweld nifer fawr o bobl yn derbyn cadarnhad o'u statws sefydlu, ond bod llawer eto yn gorfod ymgeisio cyn 30 Mehefin. Yr oedd y Cyngor a'u partneriaid amlasiantaethol wedi cefnogi ac annog trigolion yr UE i ymgeisio, a byddai hyn yn parhau hyd at ac ar ôl y terfyn amser.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad am y sefyllfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad:

-
- Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid amlasiantaethol, yr oedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Brexit y Cyngor a Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent yn nodi ac yn ystyried unrhyw risgiau / problemau allweddol yn y tymor byr yn ogystal â'r tymor canol i'r tymor hir.
- Byddai unrhyw faterion Brexit a allai godi yn cael eu hadrodd i fecanweithiau presennol Aur Covid.
- Yr oedd y Cyngor yn cysylltu â phob cyflenwr allweddol a darparwyr gwasanaethau, a chawsom sicrwydd y bydd cyflenwadau ar gael gyda risgiau i'r gadwyn gyflenwi wedi eu lleihau.
- Yr oedd tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn anfon negeseuon yn cyfeirio busnesau at wefannau Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Yr oedd tîm Cydlynu Cymunedol y Cyngor yn gweithio gyda'r gweithgor banciau bwyd, Gweithgor SSUE i gefnogi dinasyddion yr UE, trigolion a cheiswyr lloches ac i annog ymgeisio am Statws Sefydlu yr UE. Gweithiodd y banciau bwyd yn ddiflino gydol 2020 i gefnogi aelwydydd bregus a rhai ar incwm isel. Bu cyllid gan y Cyngor yn help i gefnogi banciau bwyd yn y ddinas.
- Yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda Heddlu Gwent a grwpiau amlasiantaethol eraill i nodi unrhyw achosion o droseddau casineb a chamwahaniaethu wedi eu hanelu at ddinasyddion yr UE sy'n byw ac yn gweithio yn y ddinas.

Yr oedd y tabl yn Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion llawn am y meysydd sy'n dod dan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Croesawodd yr Arweinydd feddyliau Aelodau'r Cabinet am yr adroddiad.

**Cytunwyd:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad gan nodi paratoadau Brexit y Cyngor.

## 11 Dogfen Gryno PSB

Atodwyd y ddolen i Ddogfen Gryno y BGC er gwybodaeth.

## 12 Rhaglen Waith

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd am y rhaglen waith.

**Cytunwyd:**
Derbyniodd y Cabinet y rhaglen a gyfoeswyd.

## 13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Chwefror 2021